**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/HIDCC/5187/24

Paul Davies AS,
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

3 Mai 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn yr ohebiaeth a anfonwyd gan fy rhagflaenydd Lesley Griffiths AS, a oedd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, ar 18 Hydref 2023 ac eto ar 9 Tachwedd 2023, ynghylch yr Offeryn Statudol y cyfeirir ato uchod (a elwir ar y pryd yn 'Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023').

Fe'ch hysbysodd y Gweinidog chi ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud y Rheoliadau ar ran Gweinidogion Cymru, ond wedyn ysgrifennodd hi eto i gadarnhau nad oeddent wedi cael eu gosod.

Mae fy swyddogion bellach wedi derbyn hysbysiad gan DEFRA y bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod ar 7 Mai ac yn dod i rym ar 29 Mai.

Pwrpas y Rheoliadau yw dirymu'r cyfyngiadau a osodwyd ar rai sefydliadau bwyd Brasil. Bydd hyn yn eu galluogi i gael eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd i allforio i Brydain Fawr, ar ôl i restr wedi'i diweddaru o'r sefydliadau a gymeradwywyd gan Awdurdodau Cymwys Brasil gael ei chyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod cydsyniad wedi cael ei roi'n flaenorol i'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu ar ran Gweinidogion Cymru i wneud y Rheoliadau hyn ar 12 Hydref 2023, anfonwyd y llythyr hwn atoch er gwybodaeth yn unig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs